



Polisi Safonol ar gyfer Anifeiliaid Anwes (y Sector Rhentu Preifat) Medi 2018

Bwriad y Polisi Anifeiliaid Anwes Safonol hwn (y Sector Rhentu Preifat) yw bod o gymorth i landlordiaid preifat wrth iddynt ystyried drafftio polisi ar gyfer anifeiliaid anwes. Ni fwriedir iddo fod yn gyngor cyfreithiol na phroffesiynol o unrhyw fath a dylai landlordiaid ofyn am eu cyngor arbenigol eu hunain i sicrhau bod eu polisiau yn berthnasol i'w hamgylchiadau a'u heiddo penodol hwy ac mewn perthynas ag unrhyw faterion cydymffurfio neu gyfreithiol cysylltiedig.

(h) yr RSPCA 2018. Ni chaniateir defnyddio'r ddogfen hon at ddibenion heblaw am ddrafftio polisi anifeiliaid anwes [ac ar yr amod eich bod yn cydnabod yr RSPCA fel perchennog yr hawlfraint ar unrhyw gopïau].

Landlord:	
------------------	--

Tenant(iaid):	
Enw(au) yr anifeiliaid anwes a'u brid:	
Cyfeiriad yr eiddo:	

1.0 Datganiad Polisi

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob anifail sy'n cael eu cadw gan denantiaid, gan gynnwys mamaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, pryfed ac infertebrata eraill, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'anifeiliaid anwes'.
- 1.2 Ni chaiff tenantiaid, perthnasau nac ymwelwyr gadw unrhyw anifail anwes yn yr eiddo oni bai bod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig i wneud hynny gan y landlord.
- 1.3 Gallai'r landlord gymryd camau yn erbyn tenantiaid os nad oes ganddynt ganiatâd ysgrifenedig i gadw anifail anwes, neu os torrir amodau'r denantiaeth – megis drwy adael i'w hanifeiliaid anwes fod yn niwsans. Mae hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r rhain yn unig, niwsans sŵn, baeddu, difrod i eiddo (yn fewnol ac yn allanol), achosi anaf i eraill trwy frathu/cnoi, ac unrhyw beth arall a ystyrir i fod yn niwsans. Rhoddir ystyriaeth i rai ymddygiadau naturiol gan anifeiliaid anwes nad oes unrhyw reolaeth a argymhellir ar gael.
- 1.4 Gofynnir i denantiaid gyflwyno geirda dros eu hanifeiliaid anwes gan eu landlord blaenorol os ydynt wedi rhentu gyda'u hanifeiliaid anwes yn y gorffennol.
- 1.5 Datblygwyd y weithdrefn hon gan dimau Gwyddoniaeth a Pholisi'r RSPCA. Dylai tenantiaid ddarllen Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer eu hanifail anwes, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://beta.llyw.cymru/lles-anifeiliaid-anifeiliaid-anwes>). Mae cyngor a chanllawiau ychwanegol ar sut orau i ofalu am fathau penodol o anifeiliaid ar gael ar wefan yr RSPCA (<https://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/pets>).
- 1.5 Bydd y polisi hwn yn berthnasol drwy gydol y denantiaeth ac unrhyw adnewyddu ar y denantiaeth honno.
- 1.6 Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd y landlord yn ystyried amgylchiadau arbennig, os gellir eu dangos.

2.0 Amodau cael anifail anwes

- 2.1 Mae amodau penodol y bydd yn rhaid i denantiaid eu dangos os ydynt am gael anifail anwes yn eu heiddo.

- 2.2 Yn ôl Deddf Lles Anifeiliaid 2006, rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, hyd yn oed dros dro, ofalu amdanynt yn iawn. Mae hyn yn golygu cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'r anghenion hyn yn cynnwys:
1. Yr angen am amgylchedd addas.
 2. Yr angen am ddeiet addas.
 3. Yr angen i allu dilyn patrymau ymddygiad arferol.
 4. Yr angen i fod gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt.
 5. Yr angen i'w diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.
- 2.3 Ni ddylid gadael anifeiliaid anwes heb oruchwyliaeth yn yr eiddo am gyfnodau hir, ac mae hyd y cyfnod hwnnw yn dibynnu ar fath yr anifail. Nid yn unig y gallai hyn achosi gofid i'r anifail anwes, ond gallai hefyd arwain at darfu ar gymdogion. Os yw tenantiaid mewn cyflogaeth amser llawn neu os oes ganddynt ymrwymadau amser llawn, efallai y gofynnir iddynt ddangos sut y bydd eu hanifail anwes yn cael gofal priodol. Rhaid cadw golwg bob dydd ar bob anifail anwes i wneud yn siŵr eu bod yn iawn, waeth beth fo'r rhywogaethau, a dylai tenantiaid sicrhau bod hyn yn cael ei wneud os ydynt i ffwrdd o'r eiddo.
- 2.4 Rhaid i ofal iechyd arferol gynnwys rhoi triniaeth reolaidd i atal parasitiaid megis chwain a llyngyr, yn ogystal â rhoi brechiadau ac ysbaddu pan fo hynny'n briodol. Mae angen trin yr eiddo yn rheolaidd hefyd i helpu i atal chwain. Efallai y gofynnir i denantiaid roi manylion milfeddyg ac/neu dystiolaeth bod yr anifail anwes yn cael triniaeth reolaidd.
- 2.5 Gall anifeiliaid fod ag anghenion penodol, er enghraifft, o ran amgylchedd, lle byw a maeth. Rhaid i denantiaid gofio am hyn – a'u hamgylchiadau hwy eu hunain – wrth ystyried perchnogaeth. Gall fod yn anodd diwallu anghenion anifail anwes unigol, ac yn yr achos hwn dylid annog y tenant i beidio â chael yr anifail.
- 2.6 Ni ddylid gadael i anifeiliaid anwes wneud eu baw y tu mewn i'r eiddo, ac eithrio anifeiliaid anwes sydd mewn cawell ac anifeiliaid anwes sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio blwch gwasarn baw e.e. cathod. Rhaid codi unrhyw faw yn syth o'r ardd neu fannau tu allan a'i waredu'n ddiogel ac yn hylan.
- 2.7 Gwaharddir bridio anifeiliaid at ddibenion busnes neu hobi tenantiaid neu unrhyw reswm arall.
- 2.8 Mae'n ofyniad cyfreithiol i osod microsglodyn ar gŵn ac i ddiweddarau'r manylion cysylltu, a dylai tenantiaid sicrhau bod pob anifail anwes (e.e. cathod, ffuredau a chwingod) wedi cael microsglodyn, lle bo'n briodol.
- 2.9 Rhaid i bob tenant sy'n cael caniatâd i gadw anifail anwes yn eu heiddo lenwi dogfen Lles Anifeiliaid (Atodiad Pedwar). Bydd y ddogfen hon yn sicrhau bod y landlord yn gwybod faint o anifeiliaid anwes sydd yn yr eiddo, p'un a yw'r anifeiliaid anwes wedi cael brechiadau ac a oes ganddynt ficrosglodyn ai peidio. Yn ogystal, bydd angen manylion cyswllt aelod o'r teulu neu ffrind y gellir cysylltu â nhw petai argyfwng. O dan Orchymyn Rheoli Cŵn 1992, rhaid i bob ci gael coler sydd ag enw a chyfeiriad y perchennog arno i'w wisgo mewn manau cyhoeddus.

- 2.10 Rhaid i unrhyw addasu ar yr eiddo (er enghraifft, gosod drws clep i gathod, atgyfnerthu ffens, codi sied yn yr ardd) gael caniatâd y landlord ymlaen llaw. Efallai y bydd angen caniatâd tîm cynllunio'r awdurdod lleol hefyd i rai addasiadau strwythurol.
- 2.11 Rhaid i unrhyw denant sy'n symud i fyw, boed drwy gael ei droi allan, gadael drwy gytundeb neu adael heb rybudd, fynd â phob anifail anwes gyda nhw. Gallai methu â gwneud hynny arwain at y tenant yn gorfod talu am unrhyw gostau a rhoddir gwybod i'r heddlu neu'r RSPCA. Os yw'r tenant yn bwriadu bod ffwrdd o'r eiddo am gyfnod o amser (e.e. dros nos), rhaid iddynt wneud trefniadau i ofalu am eu hanifail anwes, gan gynnwys bodloni holl anghenion lles yr anifail a chael rhywun i fynd i edrych ar eu hanifail anwes o leiaf unwaith bob dydd.
- 2.12 Ni ddylid clymu anifeiliaid anwes o dan unrhyw amgylchiadau. Gall eu clymu neu roi rhaff arnynt i'w cadw'n sownd arwain at anafiadau a chyfyngu ar allu'r anifail i ymddwyn yn normal. Pe bai tystiolaeth o hyn yn cael ei ddwyn at sylw'r Landlord, trosglwyddir y wybodaeth hon i'r awdurdodau perthnasol neu'r RSPCA.

3.0 Y broses rhoi caniatâd

- 3.1 Rhaid i unrhyw denant sy'n gwneud cais i gael cadw anifail anwes yn eu heiddo lenwi ffurflen ganiatâd landlord. Ni chaiff y caniatâd ei wrthod yn afresymol.
- 3.2 Pan roddir caniatâd, anfonir llythyr yn rhoi gwybod i'r tenant ynghylch amodau'r caniatâd (Atodiad Un).
- 3.3 Bydd yn rhaid i'r tenant lofnodi i gytuno i gadw at yr amodau hyn (Atodiad Dau).
- 3.4 Pan dderbynnir cais i gadw ci cymorth, rhoddir caniatâd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ar ôl derbyn y prawf cofrestru cywir.
- 3.5 Pan wrthodir caniatâd, anfonir llythyr yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (Atodiad Tri). Cyfeirir at enghreifftiau o resymau pam y gellir gwrthod caniatâd yn adran 4.0. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.
- 3.6 Pan ddaw landlord i wybod bod gan denant anifail anwes ond nad oes ganddo'r caniatâd angenrheidiol, cynghorir y tenant i gyflwyno ôl-gais am ganiatâd. Caiff y cais hwn ei brosesu yn yr un modd â chais cyfredol.
- 3.7 Os bydd anifail anwes sydd â chaniatâd y landlord yn marw, bydd angen gwneud cais arall ar gyfer unrhyw anifeiliaid anwes newydd neu anifeiliaid ychwanegol.
- 3.8 Ni roddir caniatâd oni bai fod asesiad yn dangos bod maint yr eiddo yn ddigonol ar gyfer y math o anifail anwes y gwneir cais amdano.

4.0 Amgylchiadau arbennig

4.1 Bydd Adran 1 Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn berthnasol i bob cais am ganiatâd. O dan y Ddeddf hon mae'n drosedd cael yn eich meddiant unrhyw gi o'r math a elwir yn Pit Bull Terrier, Dogo Argentino, Fila Brasileiro a Japanese Tosa oni bai eu bod wedi cael esemptiad o'r gwaharddiad. Mae esemptiad yn golygu bod llys yn fodlon nad yw'r ci yn peri unrhyw risg i ddiogelwch y cyhoedd ac mae wedi'i restru ar y Mynegai Cŵn Eithriedig (IED). Rhaid i'r perchennog fodloni amodau'r eithriadau fel a ganlyn:

- rhaid i'r ci fod wedi'i ysbaddu a'i ficrosglodynnu;
- rhaid i'r perchennog / ceidwad godi yswiriant trydydd parti ar gyfer y ci (a'i adnewyddu bob blwyddyn);
- dim ond oedolyn dros 16 oed sy'n cael mynd â'r ci allan yn gyhoeddus, rhaid cadw'r ci ar dennyn ac mewn safnffrwyng (*muzzle*) mewn manau cyhoeddus;
- ni chaniateir magu o'r ci, ei roi yn anrheg i rywun arall neu gael gwared arno mewn ffordd arall;
- rhaid cofrestru'r ci ar fynegai'r IED.

Gall deddfwriaeth newid y rhestr hon; bydd unrhyw newid i'r rhestr yn berthnasol i'r weithdrefn hon.

4.2 Ni roddir caniatâd i denantiaid sy'n gwneud cais i gadw anifail anwes a enwir yn Neddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (fel y'u diwygiwyd). Gall y rhestr hon newid yn sgil deddfwriaeth; bydd unrhyw newid i'r rhestr yn berthnasol i'r weithdrefn hon. Gellir hysbysu [[enw'r heddlu](#)] am unrhyw anifeiliaid anghyfreithlon yn yr eiddo.

4.3 Os yw anifail anwes erioed wedi achosi anaf difrifol i rywun, neu os yw'n beryglus mewn unrhyw ffordd arall, er enghraifft, neidr wenwynig, yna gwrthodir caniatâd. Os rhoddwyd caniatâd eisoes, a bod rhywbeth yn digwydd neu os datgelir rhagor o wybodaeth, caiff y caniatâd hwn ei ddiddymu. Mae hyn yn cynnwys pob anifail a restrir o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, ond heb ei gyfyngu i'r rhestr honno, ac unrhyw gŵn sydd wedi bod allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.

4.4 Gellir gwrthod caniatâd ar gyfer anifeiliaid annomestig, er enghraifft, primatiaid a mwncïod, da byw, ceffylau ac anifeiliaid gwyllt. Disgresiwn y landlord yw caniatáu cadw dofednod a rhai rhywogaethau o dda byw os yw'r tenant yn gallu dangos eu profiad o gadw'r anifeiliaid hynny, bod lle yn yr eiddo a bod modd sicrhau lles yr anifeiliaid.

4.5 Os oes gan y tenant neu rywun arall sy'n byw yn yr eiddo unrhyw euogfarnau neu hanes blaenorol o greulondeb at anifeiliaid, eu hesgeuluso, eu cam-drin neu eu gadael, neu euogfarn am unrhyw drosedd o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991, neu os ydynt wedi'u gwahardd rhag cadw anifeiliaid oherwydd euogfarn, yna gwrthodir caniatâd.

5.0 Ymwelwyr, maethu a chladdu

5.1 Dylai'r tenant ofyn am ganiatâd y landlord cyn i unrhyw anifail anwes ymweld â'r eiddo, pan fo amser priodol i wneud hynny. Ni ddylai unrhyw anifail anwes sy'n ymweld â'r eiddo achosi niwsans; bydd y tenant yn atebol am unrhyw niwsans a achosir mewn eiddo. Gall y landlord beidio â gadael i anifeiliaid anwes ymweld â'r eiddo, neu wrthod neu ddiddymu unrhyw ganiatâd i anifeiliaid anwes ymweld â'r eiddo, os cafwyd niwsans.

- 5.2 Bydd ceisiadau i faethu anifeiliaid neu ofalu am anifeiliaid dros dro ar ran pobl eraill, e.e. elusennau anifeiliaid, yn dilyn yr un broses â cheisiadau eraill am ganiatâd.
- 5.3 Os yw'r tenant yn dymuno claddu anifail anwes yn yr ardd, rhaid i'r tenant:
- Gael caniatâd y landlord ac os ceir caniatâd dylid:
 - Sicrhau bod yr anifail anwes wedi ei gladdu'n ddigon dwfn (o leiaf 3 troedfedd) i atal anifeiliaid eraill rhag cloddio i'w tyrchu i'r wyneb
 - Claddu'r anifail anwes ymhell o lwybr dŵr
 - Gwirio nad oedd yr anifail anwes wedi marw o glefyd heintus.
- 5.4 Os yw anifail anwes yn marw o glefyd heintus, yna mae'n rhaid i'r tenant sicrhau ei fod yn cael ei amlosgi.

6.0 Torri amodau

- 6.1 Os caiff unrhyw un o'r amodau a nodir yn y ddogfen hon eu torri, gall y **landlord** gymryd camau priodol.
- 6.2 Bydd y landlord yn ymchwilio i'r sefyllfa, gan gynnwys unrhyw niwsans sŵn neu faterion hylendid, sydd wedi'u codi yn unol â Gweithdrefnau Torri Tenantiaeth ac/neu bolisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fel sy'n briodol.
- 6.3 Os ceir unrhyw adroddiadau am greulondeb, esgeulustod neu effaith ar iechyd a lles unrhyw anifail sydd yng ngofal tenant, yna hysbysir yr awdurdodau perthnasol.
- 6.4 Mae gan y **landlord** yr hawl i dynnu'r caniatâd yn ôl a mynnu bod yr anifail anwes yn mynd o'r eiddo os caiff amodau'r Polisi hwn eu torri.
- 6.5 Bydd camau cyfreithiol, megis gwneud cais am waharddeb (*injunction*) neu droi allan yn cael eu hystyried os bydd tenant yn gwrthod cydweithredu i fynd i'r afael â phryderon.

7.0 Deddfwriaeth a chanllawiau cefnogol

Mae darnau o sawl deddfwriaeth a chanllawiau wedi bod yn sail i'r weithdrefn hon, a'r rheiny'n cynnwys:

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006;
- Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992;
- Deddf Cŵn Peryglus 1991;
- Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf Tai 1988 (fel y'i diwygiwyd 1996);

- Deddf Tramgwyddau yn erbyn y Person 1861;
- Canllawiau Ymarferol ar Reoli Anifeiliaid Anwes ar gyfer Darparwyr Tai;
- Adran 34 a 35 Deddf Plismona a Throsedd 2009;
- Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015.

8.0 Adolygu'r weithdrefn

Caiff y weithdrefn hon ei hadolygu bob tair blynedd, neu yn gynt os bydd unrhyw newid sylweddol i ddeddfwriaeth.

Atodiadau

Atodiad Un: Rhoi caniatâd

Annwyl Denant,

Yn dilyn eich cais dyddiedig **XXXX**, mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod caniatâd wedi'i roi i chi gadw **XXXX** yn eich cartref. Rhoddir y caniatâd hwn yn amodol ar y canlynol:

1. Fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob ci gael microsglodyn a rhaid i'r manylion gael eu diweddarau'n rheolaidd ar y gronfa ddata microsglodion; bydd yr Heddlu a'r cyngor lleol yn gorfodi hyn. Os canfyddir ci heb ficrosglodyn bydd yr Heddlu neu'r cyngor yn mynd ag ef, yn gosod microsglodyn ar y ci ac yn hawlio cost gwneud hynny ar y perchennog yn ogystal â chodi dirwy arno/arni o hyd at £500. Dylai pob anifail anwes gael microsglodyn, pan fo hynny'n briodol, a dylid bob amser ddiweddarau'r manylion cysylltu ar y gronfa gysylltiedig.
2. Ni ddylid caniatáu i unrhyw anifail achosi niwsans neu aflonyddwch ac ni ddylid ei ddefnyddio mewn modd gwrthgymdeithasol, fel arall mae'n bosibl y bydd gofyn i chi fynd â nhw o'ch cartref.
3. Rhaid i chi sicrhau bod eich cartref yn cael ei gadw yn lân a chymen trwy beidio â chaniatáu i anifeiliaid anwes faeddu neu achosi unrhyw ddifrod yn eich eiddo, nac i ffiniau eich gardd neu mewn unrhyw ardal gymunedol neu mewn unrhyw ffordd arall sy'n torri'r denantiaeth. Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw faw yn cael ei lanhau a'i ddiheintio i safon uchel. Chi fydd yn gyfrifol am dalu am lanhawyr allanol posibl am unrhyw faeddu.
4. Byddwch yn bodloni anghenion lles yr anifail drwy sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gofal pe byddech yn mynd yn sâl, neu petai eich gallu i symud o gwmpas yn dirywio neu petaech yn mynd i ffwrdd o'r eiddo am unrhyw resymau eraill.
5. Byddwch yn cadw at holl delerau perthnasol y Polisi Anifeiliaid Anwes.

Mae yna sefydliadau a mudiadau a all roi cyngor i chi a gallent, petai angen, ofalu am eich anifail anwes os nad oes gennych ffrind neu berthynas a allai wneud hyn i chi. Mae'n ofyniad cyfreithiol ar bob tenant sy'n gyfrifol am anifeiliaid anwes i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion lles eu hanifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o ganllawiau Cod Ymarfer ar gyfer lles anifeiliaid anwes penodol, gan gynnwys cathod, cŵn a chwingod. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://beta.llyw.cymru/lles-anifeiliaid-anifeiliaid-anwes>).

Rydym yn eich annog hefyd i godi yswiriant ar eich anifail anwes, i sicrhau eu bod yn cael y brechiadau diweddaraf ac yn cael eu hysbaddu. Mae rhai mentrau lleol a all helpu gyda hyn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr RSPCA neu wefan eich cyngor lleol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi yn y cyfeiriad / rhif ffôn uchod.

Yr eiddoch yn gywir

Landlord



Atodiad Dau: Cytundeb i gydymffurfio ag amodau'r caniatâd a'r Polisi Anifeiliaid Anwes

Mr/Mrs/Ms/Mx

Cyfeiriad

- Rwyf wedi darllen y llythyr a atodwyd sy'n nodi'r amodau ar gyfer caniatáu i gadw XXXX yn fy nghartref, ynghyd â'r Polisi Anifeiliaid Anwes.
- Deallaf os byddaf yn methu â chadw at yr amodau hyn yna gallai'r caniatâd gael ei ddiddymu gan y landlord ac os digwyddith hynny byddaf yn mynd â'r anifail oddi yma.

Llofnodwyd

Dyddiad



Atodiad Tri: Gwrthod Caniatâd

Annwyl denant,

Ysgrifennaf atoch ynghylch eich cais dyddiedig XXXX i gadw [xxx] yn eich cartref.

Ar ôl ystyried eich cais, mae'n ddrwg gennyf roi gwybod i chi nad oes modd rhoi caniatâd i chi gadw'r anifail (anifeiliaid) yn eich cartref. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail y canlynol: -

Cyflwr yr eiddo / gorchymyn llys sy'n atal perchnogaeth anifeiliaid anwes / Arall

**** testun rhydd*****

Rwyf felly nawr yn rhoi 28 diwrnod i chi o ddyddiad y llythyr hwn i fynd â'ch anifail anwes / anifeiliaid o'ch eiddo; fel y gwyddoch ni ofynnwyd am ganiatâd ymlaen llaw i ddod â'r anifail(anifeiliaid) yno fel y nodir yn nhelerau cytundeb eich tenantiaeth. Os na chaiff eich anifeiliaid anwes eu symud o fewn yr amser hwn, rydym yn cadw'r hawl i ddechrau achos cyfreithiol. Efallai yr hoffech ystyried cysylltu â mudiadau lles anifeiliaid lleol a all eich helpu chi. Mae mudiadau lleol a allai eich cynorthwyo yn cynnwys:

- XXX
- XXX
- XXX

Yr eiddoch yn gywir

Landlord.

Atodiad Pedwar: Ffurflen Lles Anifail Anwes

Enw'r Tenant	
Cyfeiriad a rhif cysylltu	
Math o anifail anwes	Lliw
Brîd neu fath (os yw'n berthnasol)	Nodweddion
Enw'r anifail anwes	Microsglodyn? Oes/Nac oes Rhif y microsglodyn
Oed yr anifail anwes	Wedi ei ysbaddu? Ydi/Nac ydi
Ydych chi'n ystyried eich bod chi eich hun yn gallu gofalu am yr anifail hwn ar hyn o bryd? Ydw/Nac ydw	
Manylion y milfeddyg	
Cyflwr iechyd yr anifail anwes	
<p>Pe bawn yn mynd yn sâl neu i ffwrdd o'r eiddo am ba reswm bynnag neu os na allaf edrych ar ôl fy anifail anwes neu os na all xxx gysylltu â mi, gofynnaf i chi gysylltu â'r person canlynol i gymryd cyfrifoldeb:</p> <p>Enw Cyfeiriad Perthynas i mi Rhif(au) ffôn</p> <p>Rwyf hefyd yn rhoi caniatâd i'r person uchod gynorthwyo i gael mynediad i'm heiddo yn fy absenoldeb neu gytuno y gall xxx fynd mewn yn fy absenoldeb os oes ganddynt bryder am les unrhyw anifail / anifeiliaid yn fy eiddo p'un a ydynt yn gallu cysylltu â'r person uchod ai peidio.</p> <p>Os na fydd modd cysylltu â'r person y rhoddir eu manylion cysylltu inni uchod ac/neu os byddent yn gwrthod cymryd cyfrifoldeb, rwy'n cytuno y gall y landlord gysylltu â'r Heddlu, yr RSPCA neu fudiad lles anifeiliaid lleol i fynd â fy anifail anwes er ei les ei hun a deallaf mai fi fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau cysylltiedig.</p> <p>Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi fy ngwahardd rhag cadw anifail oherwydd euogfarn yn fy erbyn. Nid oes gennyf unrhyw euogfarnau am unrhyw droseddau o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991</p>	

Llofnod y Tenant

Dyddiad
